**Cynllun Ymwelwyr Dalfeydd Annibynnol Gogledd Cymru**

**Gogledd Cymru**

**Archwiliad Blynyddol 2020 – 2021**

## 1. Cefndir

1.1 Dan Ddeddf Diwygio'r Heddlu 2002 a Deddf Diwygio'r Heddlu a Chyfrifoldeb Cymdeithasol 2011, gosodwyd dyletswydd statudol ar yr holl Gomisiynwyr Heddlu a Throsedd i sefydlu a chynnal Cynllun Ymwelwyr Dalfeydd Annibynnol.

1.2 Er mai'r Comisiynydd sy'n bennaf gyfrifol am y cynllun, fe'i gweithredir mewn ymgynghoriad â'r Prif Gwnstabl.

1.3 Mae Cynllun Ymwelwyr Dalfeydd Annibynnol Gogledd Cymru yn caniatáu i aelodau o'r gymuned leol sydd wedi'u penodi i'r swyddi hyn arsylwi, gwneud sylwadau ac adrodd ar amodau carchariad unigolion yn y dalfeydd. Yn ychwanegol at hyn, mae'n cynnig lefel ychwanegol o amddiffyniad i'r carcharorion a'r swyddogion heddlu gan fod triniaeth ac amodau carcharu'r carcharorion yn cael eu harchwilio'n annibynnol.

1.4 Prif Weithredwr y Comisiynydd, a'i staff sy'n rheoli'r cynllun o ddydd i ddydd gan gynnwys recriwtio ymwelwyr dalfeydd newydd a threfnu hyfforddiant ar eu cyfer. Darperir yr hyfforddiant cychwynnol ac atgoffa gan Heddlu Gogledd Cymru.

1.5 Gwirfoddolwyr yw'r holl ymwelwyr dalfeydd ac maent yn gweithio fel rhan o dîm er mwyn cyflawni targedau'r cynllun ymweld. Ar hyn o bryd, mae gennym 24 o ymwelwyr dalfeydd yng Ngogledd Cymru sy'n ymweld â 3 dalfa benodol, Llai yn y Dwyrain, Llanelwy yn yr Ardal Ganolog a Caernarfon yn y Gorllewin. Dim ond pan fydd y dalfeydd yn cael eu defnyddio y cynhelir ymweliadau yn Yr Wyddgrug, Caergybi a Dolgellau.

1.6 Mae tîm o ymwelwyr dalfeydd wedi'i neilltuo i bob Ardal ac mae gan y timau hyn gydlynydd ymroddedig sy'n gyfrifol am drefnu amserlenni'r ymweliadau.

1.7 Mae'r cydlynydd yn rhoi ystyriaeth i rhywedd ac i'r iaith Gymraeg pam yn paratoi'r amserlen.

1.8 Mae Swyddfa'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd yn recriwtio yn gwirfoddolwyr syn' ymweld a dalfeydd Gogledd Cymru yn rheolaidd.

## 2. Nifer yr Ymweliadau

2.1 Yn ystod y cyfnod riportio Ebrill 2021 - Mawrth 2022 cynhaliodd yr Ymwelwyr Dalfeydd Annibynnol 119 o ymweliadau ar draws Gogledd Cymru. Yn ystod y cyfnod hwn, roedd ymweliadau corfforol yn gyfyngedig yng Nghaernarfon oherwydd pandemig Covid-19, ond ailddechreuodd archwiliadau lles cyn gynted ag yr oedd yn ddiogel gwneud hynny.


2.2 Pan ellid cynnal ymweliadau corfforol, bydd cydlynydd pob ardal sy'n gyfrifol am drefnu amserlen ar gyfer yr ymweliadau ar ddechrau pob chwarter; wedyn bydd yr ymwelwyr yn cysylltu â'i gilydd i drefnu diwrnod ac amser addas i gynnal yr ymweliad. Cynhelir yr ymweliadau mewn parau. Ni fydd Rhingyll y ddalfa yn caniatáu i un ymwelydd dalfeydd weld rhywun sy'n cael ei gadw yn y ddalfa ar ei ben/ei phen ei hun.

2.3 Rhoddir mynediad ar unwaith i'r ymwelwyr i'r dalfeydd, ac os oes unrhyw oedi, bydd yr ymwelwyr dalfeydd yn gofyn am eglurhad. Mae'r dalfeydd yn brysur iawn fel arfer, efallai y bydd yn rhaid i'r ymwelwyr dalfeydd ddisgwyl tan y gall rhywun eu hebrwng at y celloedd ond ni ddylai fod oedi o ran cael mynediad cychwynnol i'r ddalfa.


2.4 Gofynnir i'r Cydlynwyr a'r Ymwelwyr amrywio pryd maent yn cynnal eu hymweliadau. Yn ystod y flwyddyn cynhaliwyd ymweliadau ar ddiwrnodau gwahanol o'r wythnos ac ar wahanol amseroedd o'r dydd.

2.5 Mae'r siartiau isod yn dangos bod ymweliadau'n cael eu cynnal ar bob diwrnod o'r wythnos ac amserau gwahanol. Mae pob ymweliad yn ddirybudd.

*Graff 1 –Amseroedd ymweliadau ym mhob ardal*




*Graff 2 – ymweliadau ym mhob ardal*




2.6 Fe gynhelir y rhan fwyaf o'r ymweliadau rhwng 9:00 a 21:00 (*Graff 1*). Mae cynnal ymweliadau ar ôl 21:00 yn llai effeithiol gan fod y rhan fwyaf o'r carcharorion yn cysgu. Mae Deddf yr Heddlu a Thystiolaeth Droseddol 1984 (PACE) yn nodi bod rhaid i garcharor gael llonydd i gysgu. Yn ystod yr ymweliad bydd Rhingyll y Ddalfa yn egluro gofynion PACE i'r ymwelwyr o ran bod rhaid i'r carcharorion gael llonydd i gysgu a goblygiadau posibl unrhyw ymweliad ar ymchwiliad penodol. Bydd yr Ymwelwyr Dalfeydd yn parchu cyngor Rhingylliaid y Ddalfa.

**3. Adborth**

3.1 Yn ystod y cyfnod riportio roedd 496 o garcharorion yn cael eu cadw yn y dalfeydd ar adeg cynnal yr ymweliadau.

3.2 Yn ystod y cyfnod riportio cafodd 11,561 o garcharorion eu cadw yn y dalfeydd yng Ngogledd Cymru, 1,320 yn fwy o garcharorion i gymharu ar flwyddyn gynt.

3.3 O'r 496 o garcharorion a oedd yn cael eu cadw yn y dalfeydd adeg cynnal yr ymweliadau roedd modd gweld 313 ohonynt a cytunodd 256 i ymweliad.

3.4 Ar ddiwedd pob ymweliad mae'r ymwelydd yn llenwi ffurflen adborth sy'n cynnwys manylion am faint o garcharorion a oedd yn y ddalfa, manylion unrhyw faterion a godwyd a manylion unrhyw garcharorion nad oeddynt ar gael i'w gweld neu a wnaeth wrthod ymweliad. Mae'r rhan fwyaf o'r materion a godir gan y carcharorion yn cael eu datrys gan Swyddog y Ddalfa ar adeg yr ymweliad. Fe ddargyfeirir unrhyw faterion nad yw'n bosib eu datrys yn ystod yr ymweliad i Arolygydd y Ddalfa i'w hystyried ac i gamau priodol gael eu cymryd. Fodd bynnag, mae'n bwysig nodi bod y rhan fwyaf o'r adroddiadau a geir gan yr Ymwelwyr Dalfeydd yn canmol amodau'r dalfeydd.

3.5 Y prif resymau pam nad oedd modd gweld rhai carcharorion oedd: roeddynt mewn cyfweliad/gyda chyfreithiwr, roeddynt yn cysgu, yn cael eu prosesu/rhyddhau/trosglwyddo, neu cafwyd cyngor gan staff y ddalfa i beidio eu gweld oherwydd fe allent fod yn dreisgar.

3.6 Er mwyn rhoi sicrwydd pellach fod ceisiadau a phryderon carcharorion yn cael eu delio â nhw tra byddant yn y ddalfa fe gynhelir ymarfer hap samplo gan Arolygydd y Ddalfa a SCHTh. Dewisir sampl ar hap o adroddiadau adborth a byddant yn cael eu croes gyfeirio yn erbyn cofnodion y ddalfa. Mae SCHTh yn falch o allu nodi y cafodd pob cais neu bryder a godwyd yn y ddalfa ei ddelio ag ef mewn modd prydlon gan staff a swyddogion y ddalfa.

**4. Materion yn codi o'r ymweliadau**

4.1 Allan o'r 119 ymweliadau a gynhaliwyd a'r 256 o garcharorion a welwyd, roedd y ceisiadau mwyaf cyffredin a gafwyd gan y carcharorion yn ymwneud â bwyd/diod, blancedi ychwanegol, materion meddygol a galwadau ffôn. Cafodd y rhan fwyaf o'r materion a godwyd gan y carcharorion eu datrys adeg yr ymweliad gan Ringyll y Ddalfa. Fodd bynnag, mae'n bwysig nodi bod y mwyafrif o'r adroddiadau a gafwyd gan yr Ymwelwyr Dalfeydd yn canmol amodau'r dalfeydd.

4.2 Gall Panel yr Heddlu a Throsedd a'r cyhoedd fod yn dawel eu meddwl na chafodd unrhyw faterion arwyddocaol eu riportio gan y carcharorion a oedd yn cael eu cadw yn nalfeydd Gogledd Cymru yn ystod y cyfnod riportio. Mae'r Panel Ymwelwyr Dalfeydd Annibynnol yn adolygu'r holl adroddiadau yn rheolaidd er mwyn adnabod unrhyw dueddiadau, patrymau neu er mwyn tynnu sylw at unrhyw faterion sydd efallai heb eu datrys.

**5. Yr Amcanion ar gyfer y Dyfodol**

5.1 Parhau gyda gwaith effeithiol Cynllun y Ddalfa.

5.2 Recriwtio mwy o Ymwelwyr Dalfeydd ar draws Gogledd Cymru yn rheolaidd.

5.3 Cydweithio gyda Grwpiau Ymwelwyr Dalfeydd Gogledd Orllewin Lloegr.

5.4 Cyhoeddi manylion gweithgareddau'r Ymwelwyr Dalfeydd Annibynnol ar wefan y Comisiynydd.

5.5 Gweithio gydag Adran Hyfforddiant a Datblygiad yr Heddlu er mwyn rhoi hyfforddiant sy'n berthnasol i'r cynllun i recriwtiaid newydd.

**6. Goblygiadau'r Adroddiad**

| | |
|---|---|
| Ariannol | Yn gyffredinol y gobaith ydi y bydd y cynllun yn gallu gweithredu fel y mae wedi gwneud yn y blynyddoedd diwethaf a pharhau i gynnal nifer derbyniol o ymweliadau. Mae'r costau'n isel oherwydd y cynhelir yr holl hyfforddiant yn fewnol. Mae Gogledd Cymru yn cyfrannu at gynhadledd flynyddol Gogledd Cymru a Gogledd Orllewin Lloegr sy'n rhoi cyfle i ymwelwyr dalfeydd rwydweithio ag ymwelwyr o wahanol ardaloedd. Mae'r lwfans milltiroedd yn daladwy yn ôl graddfa CthEM – 45cpm. |
| Cyfreithiol | Mae gan Swyddfa'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd gyfrifoldeb statudol i weinyddu a goruchwylio Cynllun Ymwelwyr Dalfeydd Annibynnol. |
| Cymunedol | Prif amcan y cynllun yw darparu sicrwydd i'r cyhoedd bod pobl sy'n cael eu dal yn nalfeydd yr heddlu yn cael eu trin yn deg a'u bod yn ddiogel |
| Risg | Ni adnabuwyd unrhyw risg sylweddol. |
| Amcanion Heddlu a Throsedd | Mae'r cynllun hwn yn ofyniad statudol dan Ddeddf Diwygio'r Heddlu a Chyfrifoldeb Cymdeithasol 2011. |

| | |
|---|---|
| Cydraddoldeb | Mae'r Cynllun Ymwelwyr Dalfeydd Annibynnol yn gobeithio cynnal amrywiaeth cytbwys o wirfoddolwyr sy'n gynrychioliadol o'r gymuned leol ac sy'n dod o gefndiroedd gwahanol. At ei gilydd mae'r aelodau'n unigolion gwyn Prydeinig ac yn Gymry gwyn ond y bwriad ydi ceisio penodi aelodau o gefndiroedd lleiafrifoedd ethnig a hefyd unigolion gydag anableddau. Mae'r cynllun yn parhau i fod ag ymwelwyr sy'n gallu siarad Cymraeg, yn arbennig yn yr ardal Orllewinol. Mae hyn yn galluogi'r ymwelwyr i gynnig dewis iaith i'r carcharorion. |